

## Trwyddedau tacsï

### Rhestrau o ddogfennau gwreiddiol a dderbynnir fel prawf o'ch hawl i ymgeisio am drwydded tacsï newydd

Mae'r rhestrau isod yn nodi'r dogfennau gwreiddiol a dderbynnir sydd yn profi bod gennych hawl i weithio yn y DU ac i ymgeisio am drwydded tacsï newydd.

Gofynnwn i chi wneud apwyntiad gyda'r Swyddog Trwyddedu i gael cyfweiliad wyneb yn wyneb gyda eich dogfennau gwreiddiol. Gallwch wneud hyn wrth gyflwyno eich ffurflen gais.

Unwaith y byddwn ni wedi archwilio a sganio eich dogfennau, byddwn yn eich hysbysu a ydynt yn dderbyniol a rhoi gwybod i chi os cewch chi wneud cais am drwydded. **Os na fyddwch chi'n dod a'ch dogfennau gwreiddiol ni fydd modd i chi wneud cais am drwydded.**

### Dogfennau a dderbynnir gan unigolyn heb unrhyw gyfyngiadau mewnfudo ar hawl i drwydded yn yr D.U

#### Rhestr A:

1.	Pasbort sydd yn dangos fod y deilydd neu unigolyn a enwir yn y pasbort fel plentyn y deiliaid, yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd y DU a'r Tiriogaethau sydd â hawl i fyw yn y DU.
2.	Pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol sydd yn dangos y deilydd, neu unigolyn a enwir yn y pasbort fel plentyn y deiliaid, yn ddinesydd gwlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir.
3.	Tystysgrif Cofrestru neu Ddogfen Ardystio Preswyl Parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd gwlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir.
4.	Cerdyn Preswyl Parhaol wedi ei roi gan y Swyddfa Gartref i aelod o'r teulu sydd yn ddinesydd gwlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir.
5.	Dogfen Mewnfudo Biometreg gyfredol (Trwydded Breswyl Biometreg) wedi ei roi gan y Swyddfa Gartref i'r deilydd sydd yn nodi bod gan y person a enwir ganiatâd i aros yn y DU yn barhaol neu nad oes terfyn amser ar eu harhosiad yn y DU.

6.	Pasbort cyfredol wedi ei gymeradwyo i ddangos fod y deilydd wedi ei eithrio rhag rheoliadau mewnfudo ac wedi cael caniatâd i aros am gyfnod amhendant yn y DU, a bod ganddo hawl i fyw yn y DU neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad yn y DU.
7.	Dogfen Statws Mewnfudo cyfredol wedi ei roi gan y Swyddfa Gartref i'r deilydd gyda chadarnhad yn nodi fod gan yr unigolyn a enwir ganiatad i aros yn y DU am gyfnod amhenodol neu nad oes terfyn amser ar eu harhosiad yn y DU ynghyd â dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol i'r unigolyn(ion) wedi ei gysylltu gyda'i henw ac a roddwyd gan Asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. Gweler enghraifft o Ddogfen Statws Mewnfudo yma.
8.	Tystysgrif geni neu fabwysiadu a gyhoeddwyd yn y DU sydd yn cynnwys enw(au) o leiaf un o rieni neu rieni mabwysiadol y deilydd ynghyd â dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol i'r unigolyn(ion) wedi ei gysylltu gyda'i enw, ac a roddwyd gan Asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
9.	Tystysgrif geni neu fabwysiadu wedi ei ddarparu yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon ynghyd â dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol i'r unigolyn(ion) wedi ei gysylltu gyda'i enw, ac a roddwyd gan Asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
10.	Tystysgrif o gofrestrriad neu naturiolriad fel dinesydd Prydeinig ynghyd â dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol wedi ei gysylltu, gyda'i enw, ac a roddwyd gan Asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

## **Dogfennau a dderbynnir gan unigolyn sydd â chyfyngiadau mewnfudo ar hawl i drwydded yn yr D.U**

### **Rhestr B:**

1.	Pasbort cyfredol wedi ei gymeradwyo i ddangos fod gan y deilydd ganiatâd i aros yn y DU ar hyn o bryd a bod ganddo/i ganiatâd i ymgymryd â'r math o waith dan sylw.
2.	Dogfen Mewnfudo Biometreg gyfredol (Trwydded Breswyl Biometreg) wedi ei roi gan y Swyddfa Gartref i'r deilydd sydd yn nodi fod gan yr unigolun a

	enwir hawl i aros yn y DU ar hyn o bryd a bod ganddo/i ganitâd i ymgymryd â'r math o waith dan sylw.
3.	Cerdyn Preswyl cyfredol (gan gynnwys Cerdyn Preswyl Mynediad neu Gerdyn Preswyl Deilliadol) wedi ei roi gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd gwlad tu allan i Ardal Economaidd Ewrop, neu sydd yn berthynas i ddinesydd o wlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir, neu sydd â hawl deilliadol i breswyllo.
4.	Dogfen Statws Mewnfudo gyfredol gyda llun wedi ei roi i'r deilydd gan y Swyddfa Gartref gyda chymeradwyaeth ddilys yn dangos fod gan yr unigolyn a enwir hawl i aros yn y DU, a bod ganddo/i hawl i ymgymryd â'r math o waith dan sylw, ynghyd a dogfen swyddogol y nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn wedi ei gysylltu gyda'i enw, ac a ddarparwyd gan Asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
5.	Tystysgrif Cais sydd yn llai na chwech mis wedi ei roi gan y Swyddfa Gartref o dan ganllawiau 17(3) neu 18A (2) Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2006, i aelod o deulu dinesydd o wlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir sydd yn datgan fod gan y deilydd hawl i ymgymryd â gwaith, ynghyd â Chymeradwyaeth gan Uned Dystiolaeth ac Ymchwilio'r Swyddfa Gartref. Gellir rhoi'r drwydded am chwe mis o ddyddiad Tystysgrif y Cais.
6.	Cymeradwyaeth wedi ei roi i chi gan Uned Dystiolaeth ac Ymchwilio'r Swyddfa Gartref, sydd yn datgan fod gan yr unigolion a enwir hawl i aros yn y DU gan fod ganddynt gais prydlon, apêl neu adolygiad gweinyddol heb ei gwblhau. Gellir rhoi'r drwydded am chwe mis o ddyddiad penderfyniad y drwydded.